Cwestiynau ac Atebion Cotwm Masnach Deg

Beth yw Cotwm Masnach Deg? Sut mae'n wahanol i gotwm cyffredin?

Mae cotwm yn hanfodol i'r diwydiant tecstilau byd eang ac i ddatblygiad cymdeithasol ac economaidd gwledydd sy'n datblygu. Nid oes gwahaniaeth safon rhwng cotwm Masnach Deg a chotwm cyffredin. Y gwahaniaeth mewn gwirionedd yw bod y person ar waelod y gadwyn cyflenwi, sy'n tyfu'r cotwm, yn derbyn pris teg am y cnwd. Nid y defnydd neu ddilledyn gorffenedig sydd wedi'i ardystio fel Masnach Deg, ond y cotwm ei hun.

A yw Cotwm Masnach Deg yn organig?

Gall cotwm Masnach Deg fod yn organig, ond nid yw'n rheidrwydd. Mae hyn oherwydd bod Masnach Deg yn ceisio cefnogi'r ffermwyr mwyaf ymylol, na all bob amser fedru fforddio troi at ffermio organig, neu sydd heb wybodaeth am amaethyddiaeth organig. Gall gymryd blynyddoedd i droi cnwd i fod yn organig, ond mae'n rhywbeth y mae nifer o ffermwyr cotwm Masnach Deg yn gweithio tuag ato gan eu bod yn derbyn pris uwch am gotwm organig. Mae Masnach Deg yn cynnal safonau amgylcheddol cryf a chlir ar sail argymhellion rhyngwladol Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig, megis rheolaeth lem ar gemegau a gostyngiad yn y plaladdwyr ar restr 'Dirty Dozen' rhwydwaith 'Pesticide Action Network'*, gan eu bod o bosib yn niweidio amgylchedd y ffermwyr yn ogystal â'u hiechyd. Mae Masnach Deg hefyd yn annog ffermio cynaliadwy fel bod ffermwyr yn sefydlu cynlluniau datblygu amgylcheddol i sicrhau, lle bo'n bosibl, bod gwastraff yn cael ei reoli, deunyddiau yn cael eu hailgylchu, a chamau yn cael eu cymryd i osgoi erydiad pridd a llygredd dŵr. Mae hadau wedi'u haddasu'n enetig hefyd wedi'u gwahardd.

O ble daw Cotwm Masnach Deg?

Mae Masnach Deg yn gweithio mewn 59 o wledydd, gyda 650 o grwpiau o gynhyrchwyr, yn cyffwrdd bywydau tua 7.5 miliwn o ffermwyr, gweithwyr a'u teuluoedd. Mae 33 grŵp cynhyrchu cotwm yn India, Burkina Faso, Cameroon,

Mali, Senegal, Brasil, yr Aifft, Periw a Kyrgyzstan. Gorllewin Affrica ac India yw'r ardaloedd sy'n cynhyrchu fwyaf o gotwm.

Beth yw'r anawsterau sy'n wynebu ffermwyr cotwm yn y byd sy'n datblygu?

Amcangyfrifir bod 100 miliwn o gartrefi gwledig yn ymwneud â chynhyrchu cotwm mewn 70 o wledydd ledled y byd. Cynhyrchir dwy ran o dair o'r cotwm hwn yn y byd sy'n datblygu. Ar gyfer y mwyafrif o ffermwyr mewn cymunedau sy'n cynhyrchu cotwm, dyma'u hunig ffordd o gael incwm, a'u hunig gnwd i'w werthu am arian. Yng Ngorllewin Affrica er enghraifft, mae cotwm yn cyfrif am hyd at 40% o'r incwm allforio. Mae nifer o ffermwyr cotwm hefyd yn byw mewn tlodi – yn ceisio byw ar lai na $2 y dydd. Bu prisiau cotwm ar farchnad y byd yn ansefydlog ers cryn dipyn o amser, ac mae'r cwymp mewn prisiau wedi effeithio'n ddifrifol ar ffermwyr. Mae pethau'n mynd yn anos – nid yn haws. Mae ffermwyr cotwm dan bwysau yn sgil costau cynyddol tanwydd, plaladdwyr a phryfleiddiaid. Golyga hyn mai ychydig o ffermwyr all dalu'r costau cynhyrchu, gan nad oes modd iddynt basio'r costau hyn ymlaen pan fo cotwm yn cael ei werthu am bris mor isel. Mae mynegai Cotlook * yn dangos bod ffermwyr cotwm, mewn termau real, wedi derbyn pum gwaith yn fwy am kilo o gotwm yn 1973 na 2007.



Mae ffermwyr cotwm yn yr Unol Daleithiau, yr Undeb Ewropeaidd a Tsieina yn derbyn cymorthdaliadau mawr, gan arwain at or-gynhyrchu. Pan fo'u symiau

enfawr o gotwm yn cael eu gollwng ar farchnadoedd y byd, mae prisiau'n syrthio, ac nid oes modd i ffermwyr cotwm bychain gystadlu.

Sut mae ffermwyr yn elwa o gotwm Masnach Deg?

Mae Masnach Deg yn darparu achubiaeth i ffermwyr wrth sicrhau eu bod yn derbyn lleiafswm pris gwarantedig ar gyfer eu cnwd o gotwm, sy'n ddigon i dalu costau cynhyrchu cynaliadwy. Maent hefyd yn derbyn arian ychwanegol i'w fuddsoddi mewn prosiectau cymunedol - y premiwm Masnach Deg – a'r mudiadau ffermwyr sy'n penderfynu sut i'w fuddsoddi, gan ddibynnu beth sydd ei angen fwyaf - ysgol, canolfan iechyd, offer neu ffynnon. Mae Masnach Deg yn offeryn datblygiad effeithiol gan ei fod yn rhoi mynediad i ffermwyr bychain at farchnadoedd byd-eang, yn ogystal â'u cynorthwyo i weithio'u ffordd allan o dlodi. Mae prynu neu gynhyrchu nwyddau wedi'u gwneud o gotwm ardystiedig Masnach Deg yn cyfrannu at y frwydr yn erbyn tlodi ac at ddatblygiad cynaliadwy ar gyfer rhai o ffermwyr cotwm mwyaf ymylol y byd.

A yw nwyddau o gotwm Masnach Deg yn ddrytach?

Mae nwyddau cotwm sydd ar werth yn y DU yn amrywio'n sylweddol o ran pris gan ddibynnu ble maent ar werth, eu safon a'u brand, yn ogystal â darbodrwydd maint yn y gadwyn cyflenwi. Fel rheol, po fwyaf yw maint yr archeb, y mwyaf cystadleuol fydd y pris. Mae rhai cwmnïau yn dewis anelu nwyddau at farchnadoedd premiwm, ond mae nifer hefyd yn dewis troi nwyddau sylfaenol at fasnach deg, gan eu gwerthu am brisiau confensiynol. Nid oes gan Fasnach Deg reolaeth dros bris gwerthu nwyddau yn y farchnad, a phenderfyniad siopwyr unigol yw a yw nwyddau yn werth da am arian.

Sut mae cwmni'n cael nod MASNACH DEG ar nwydd cotwm?

Pan welwch nod MASNACH DEG ar ddilledyn mae'n golygu bod y cotwm wedi dod o fudiad cynhyrchu ardystiedig Masnach Deg. Mae hefyd wedi ei gynhyrchu mewn cadwyn gyflenwi ardystiedig, ac mae modd olrhain y cotwm yn llawn. Rhaid i bob

gweithredwr yn y gadwyn cyflenwi, o'r melinydd cotwm i'r nyddwr, gwëwr, gwehydd, lliwydd, ffatri ddillad ac is gontractwr, fod yn ardystiedig i drin cotwm masnach deg. Rydym hefyd yn gofyn i'r gweithredwyr cadwyn gyflenwi am dystiolaeth annibynnol eu bod yn ymdrechu i gyflawni safonau llafur cydnabyddedig, er ei bod yn y pen draw yn gyfrifoldeb ar y brand neu gwmni i sicrhau bod y safonau hyn yn cael eu cyflawni.

Beth sy'n ysgogi cwmnïau i weithio gyda chotwm Masnach Deg?

Mae nifer o resymau pam fod cwmnïau yn dewis gweithio gyda Masnach Deg. Gall fod yn gwestiwn o gyflawni strategaeth ac amcanion Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol, dangos ymrwymiad moesegol ehangach, mantais gystadleuol, cyfleoedd cysylltiadau cyhoeddus a marchnata, ymgysylltiad staff a chwsmer neu gyflwyno ystod newydd neu ffres o nwyddau. Gobeithiwn y bydd gweithio gyda Masnach Deg yn gatalydd ar gyfer newid, gan annog arferion prynu mwy cyfrifol ac atebolrwydd am y ffordd mae'r nwydd yn cael ei gynhyrchu.

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng nod Masnach Deg a dillad wedi'u masnachu'n deg?

Yn aml mae dryswch rhwng y nod Masnach Deg (Fairtrade) a masnachu teg (fair trade) a ffynonellau moesegol. Mae'r term cyffredinol masnachu teg wedi ei ddefnyddio ers blynyddoedd, ac mae'n cael ei ddefnyddio gan nifer o gwmnïau i ddiffinio eu ffordd o weithio gyda chyflenwyr a chynhyrchwyr. Pan welwch y nod MASNACH DEG byddwch yn gwybod bod y nwydd wedi defnyddio cotwm Masnach Deg gan gynhyrchydd ardystiedig o gadwyn gyflenwi cwbl dryloyw. Mae cwmnïau masnachu moesegol megis People Tree, Gossypium a Bishopston wedi cymryd cam ymhellach drwy weithio'n agos iawn gyda'u cadwyni cyflenwi a gwarantu bod eu nwyddau yn dod o ffynonellau moesegol.

A yw Masnach Deg hefyd yn helpu pobl sy'n gweithio mewn ffatrïoedd dillad?

Mae Masnach Deg yn bennaf yn offeryn datblygu sydd wedi'i gynllunio i ateb y problemau sy'n wynebu cynhyrchwyr nwyddau amaethyddol megis coffi, coco a bananas. Mae'r ardystiad cotwm yn edrych ar yr anghyfiawnderau sy'n effeithio ar ffermwyr cotwm, ac yn cynorthwyo i wella eu sefyllfa economaidd, ond nid yw

proses gynhyrchu'r cotwm o gae'r ffermwr i'r nwydd gorffenedig wedi'i warantu yn yr un ffordd. Mae safonau Masnach Deg yn gofyn i bob cwmni sy'n gysylltiedig â gwneuthuriad nwyddau cotwm ardystiedig Masnach Deg gyflwyno dogfennau i brofi amodau gwaith gweddus. Fodd bynnag mae monitro amodau llafur yn gymhleth, a rhaid i'r brand neu fanwerthwr gymryd y cyfrifoldeb yn y pen draw. Mae mudiadau megis *Ethical Trading Initiative*, Ymddiriedolaeth *Fair Wear* a *Social Accountability International* wedi gwneud ymdrech enfawr i wella amodau gwaith yn y diwydiant dillad. Mae Masnach Deg yn ategu'r gwaith hwn, a gellir ei weld fel ffordd o godi'r bar ac annog mwy o arferion cyfrifol ymysg brandiau a manwerthwyr wrth chwilio am ffynonellau. Rydym yn cydnabod bod pobl fregus yng nghadwyn cyflenwi cynnyrch cotwm a allai elwa o ardystiad Masnach Deg, ac rydym ar hyn o bryd yn ystyried datblygu safon sy'n ymestyn buddiannau Masnach Deg ymhellach fel y gellid labelu nwydd gyda'r nod MASNACH DEG o'r hedyn i'r dilledyn gorffenedig.

Pam nad oes mwy o nwyddau cotwm Masnach Deg ar gael?

Ar hyn o bryd, canran fechan iawn o farchnad y DU yw nwyddau cotwm Masnach Deg. Wrth i alwad cwsmeriaid godi, ac i gwmnïau ddod yn fwy ymwybodol o'r angen i ddod o hyd i ffynonellau cyfrifol drwy gefnogi cotwm Masnach Deg, gobeithiwn drwyddedu mwy o nwyddau cotwm Masnach Deg, o ffasiwn y stryd fawr i ddillad babanod, o nwyddau cartref i ddillad ysgol, ac o fagiau i wlân cotwm. Rydym am i gotwm Masnach Deg ddod yn beth cyffredin.

Ble fedra i brynu nwyddau cotwm Masnach Deg?

Edrychwch ar adran rhestr cyflenwi'r wefan am wybodaeth am frandiau a manwerthwyr sy'n cynnig nwyddau cotwm
www.fairtrade.org.uk/products/cotwm/stockists.aspx

<u>Cyfeirnodau</u>

PAN (Pesticide Action Network) www.**pan**-uk.org

COTLOOK www.**cotlook**.com

ETHICAL TRADING INITIATIVE www.ethicaltrade.org

FAIR WEAR FOUNDATION F**airwear**.twokings.eu

SAI www.sa-intl.org